Dogfen ir Cyhoedd

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

18.06.14

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ddydd Mawrth, 24 Mehefin, 2014 am 2 o'r gloch y prynhawn yn Siambr y Cyngor , Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodedig.

Yr eiddoch yn gywir,
R.P.Jones
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on at 2:00 p.m. on Tuesday, 24 June, 2014 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
R.P.Jones
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Pwyllgor yr Ymddiredolaeth Elusennol.

2 **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer  Pwyllgor yr Ymddiredolaeth Elusennol.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION CYFARFOD 22 EBRILL, 2014** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol yr Ymddiriedolaeth Elusennol a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 2014.

5 **IS-BWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** (Tudalennau 3 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u mabwysiadu lle bo angen, cofnodion cyfarfod yr Is-Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2014.

6 **CYLLIDEB 2014/15** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno'r Gyllideb am 2014/15. *(I Ddilyn)*

7 **CAIS I'R YMDDIRIEDOLAETH - MUDIAD FFERMWYR IFANC YNYS MÔN** (Tudalennau 9 - 20)

Ystyried cais i ariannu Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn o'r Ymddiriedolaeth Elusennol. *(I Ddilyn)*

8 **CAIS I'R YMDDIRIEDOLAETH - URDD GOBAITH CYMRU** (Tudalennau 21 - 36)

Ystyried cais i ariannu Urdd Gobaith Cymru o'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

9 **EITEM SYDD YN DEBYGOL O GAEL EI CHYMRYD YN BREIFAT - DIWEDDARIAD AR DIR RHOSGOCH**

Derbyn diweddariad ar lafar gan yr Ysgrifennydd.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br><br>Lewis Davies, Jeff M. Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, Derlwyn R. Hughes, Kenneth P. Hughes, T. Ll. Hughes, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Gwilym O. Jones, H. Eifion Jones, Richard O. Jones, R. Ll. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Richard A. Dew, W.T. Hughes, Aled M. Jones, Carwyn Jones, Peter S. Rogers, Dafydd R. Thomas. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Gerallt Llewelyn Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr (Menter Môn) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr. Gerallt Llewelyn Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn i'r cyfarfod.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Roedd Mr. Derlwyn R. Hughes yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod yn cael ei gefnogi gan Medrwn Môn sy'n rhannu swyddfa gyda Menter Môn.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 20 Mawrth 2014 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**

Holodd yr Aelodau a oedd adroddiad i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Ymddiriedolaeth Elusennol ar y mater a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â thrafodaethau i godi'r cyllid cyfalaf ar gyfer dyraniadau grant. Dywedodd yr Ysgrifennydd bod ffurflenni cais am grantiau wedi eu hanfon allan ar gyfer blwyddyn ddinesig 2014/2015 ac y bydd angen cael trafodaeth ar y broses ddyrannu grantiau yn 2015/2016. Nododd ymhellach y bydd angen hefyd ystyried y cyfarwyddiadau ar gyfer dyrannu grantiau.

**3 CAIS AM ARIAN CYFATEBOL AR GYFER GRANT Y GYMUNED EWROPEAIDD YNG NGHYMRU WLEDIG**

Dywedodd yr Ysgrifennydd bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi dyrannu arian cyfatebol i Menter Môn dros y blynyddoedd. Roedd yr arian cyfatebol hwn yn hollol ar wahân i'r broses gyllido grant blynyddol i gaeau chwarae, neuaddau pentref/cymuned ac ati.

O fewn Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fe geir Pwyllgor Adfywio a fu'n ystyried cyllid economaidd a Grantiau Ewropeaidd i Ardaloedd Gwledig.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr. Gerallt Llewelyn Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn mewn perthynas â chais am arian cyfatebol o £330,000 ar gyfer derbyn Grant y Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru Wledig 2014 – 2019.

Dywedodd Mr. Jones y byddai'r cyllid yn denu £2,805,000 o arian yr EARDF a chyllid arall drwy raglen LEADER y Cynllun Datblygu Gwledig UE i helpu gydag ailstrwythuro economaidd Ynys Môn. Byddai'r cyllid hwn yn cynnwys y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2014 a 31 Rhagfyr 2017. Roedd ffigyrau'n nodi y byddai cyllid yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn cyfateb i 10.5% o gyfanswm cronfa o £3,135,000.

Rhoddodd Mr. Jones fraslun o gefndir Menter Môn o'i sefydlu yn 1995. Nid yw'r cwmni'n dosbarthu elw; mae iddo'r bwrpasau hollol anhunanol o ychwanegu gwerth economaidd a chreu swyddi. Mae Annog Cyf., yn gwmni masnachol atodol i Menter Môn ac mae'r ddau yn cyflogi 65 aelod staff ac yn 2013 fe ddychwelwyd trosiant o £7m.

Cytunodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i ddarparu £300k o arian i Menter Môn i gynhyrchu cyfanswm cyllidebol o £3m ar gyfer 2010 - 2014ac yn ystod y cyfnod fe ganolbwyntiwyd ar wneud Gwelliannau mewn Pentrefi a Gwella Mentrau a Gwasanaethau Cymunedol. Cwblhawyd 18 o brosiectau cyfalaf, derbyniodd 15 o gymunedau tref/pentrefi fuddsoddiad, cynghorwyd 25 o grwpiau cymunedol a 219 o unigolion, derbyniodd 41,600 o boblogaeth yr ardaloedd fantais ac elwodd 1,212 o blant o weithiau.

Bydd Rhaglen Grant y Gymuned Ewropeaidd 2014 – 2019 yn cael ei dargedu tuag at :-

- Ddefnyddio technoleg digidol
- Hwyluso datblygiad cyn fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwad byr
- Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymunedol
- Ychwanegu gwerth i hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol

Rhai materion a godwyd gan Aelodau'r Ymddiriedolaeth :-

- Gofynnwyd cwestiynau am y ganran o'r dyraniad grant a dreulir ar weinyddu. Dywedodd Mr. Gerallt Jones y byddai llai na 10% o'r grant yn cael ei ddefnyddio i bwrpasau gweinyddol.
- Gofynnwyd cwestiynau a oedd yn bosibl i sefydliadau gael grant gan Menter Môn a chan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar gyfer yr un prosiect. Dywedodd Mr. Gerallt Ll. Jones y byddai angen i'r cais am grant fod ar wahân h.y. am fenter wahanol o fewn y prosiect.
- Yr angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai Tref Amlwch wneud cais am gyllid grant o gronfeydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Nodwyd nad yw Amlwch ar hyn o bryd yn gallu gwneud cais am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol fel oedd wedi ei nodi yng Ngweithredoedd yr Ymddiriedolaeth.
- Ceisiodd Aelodau'r Ymddiriedolaeth gael gwybod a oedd cyfrifon terfynol Menter Môn ar gael i'w harchwilio. Dywedodd Mr. Gerallt Jones fod cyfrifon yn cael eu hanfon i'r Adran Ddatblygu Economaidd yn flynyddol. Nododd y byddai'n fodlon iawn i roi copi o gyfrifon ariannol Menter Môn am 2013 i Aelodau'r Ymddiriedolaeth lawn.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD :-**

- **I gefnogi, mewn egwyddor, y cais am arian cyfatebol am Grant Cymuned Ewropeaidd yng Nghymru Wledig;**

- **Y bydd y Pwyllgor Adfywio yn trafod y mater mewn manylder ynghyd â'r canllawiau ar gyfer dyrannu grantiau arian cyfatebol ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod llawn nesaf o'r Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**MR. T. VICTOR HUGHES**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. H. Eifion Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Mri. K P Hughes, R Ll Jones, A M Jones a G O Jones |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Swyddogaeth(Cyllid)/Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Swyddog Pwyllgor(MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. Alun W Mummery, Mrs. Nicola Roberts a Mr. Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2013.

**3 RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwynwyd – Adroddiad Chwarterol gan HSBC Global Asset Management (UK) am y cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2014.

Dywedodd y Rheolwr Buddsoddi fod y portffolio yn dangos perfformiad o +7.3% dros y cyfnod o 12 mis o gymharu â'r meincnod o +5.5%. Fodd bynnag, dros y 3 mis diwethaf roedd y portffolio ychydig yn is na'r meincnod. Gwerth y gronfa ar 19 Mai 2014 oedd £17,214.934. Cafwyd adroddiad byr gan Mr. Gareth Watts ar berfformiad y portffolio ac ar ddyrannu asedau, difidendau a'r incwm o'r buddsoddiadau.

Dywedodd y bu adferiad graddol yn y byd sy'n datblygu a bod y dychweliadau o farchnadoedd esblygol dramor yn gryf. Cyfeiriodd at dapro camau lliniaru meintiol yn yr Unol Daleithiau a oedd wedi cael effaith ar y marchnadoedd ariannol yno ar y dechrau. Ar ddiwedd Mai ac ym mis Mehefin 2013 roedd marchnadoedd yn wan oherwydd pryderon y byddai'r Gronfa Ffederal yn dechrau tapro ei rhaglen lliniaru meintiol yn gynharach nag a ragwelwyd. Yn ystod y cyfnod hwn roedd bron i bob ased wedi disgyn ac arian parod oedd yr unig le diogel.

Mae cyfraddau llog yn y DU yn parhau i fod yn hanesyddol o isel ac yn debygol o barhau felly i'r dyfodol rhagweladwy. Ymddengys bod gwariant a hyder ymysg cwsmeriaid yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd.

Dywedodd yr Ysgrifennydd bod rhai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi codi'r pwnc buddsoddiadau moesegol ac wedi holi a oes gan y Rheolwyr Buddsoddi unrhyw fframwaith polisi mewn perthynas â buddsoddiadau moesegol o fewn portffolios. Ymatebodd Mr. Watts trwy ddweud bod HSBC bob amser yn trafod ac yn ymgysylltu gyda chwmnïau cyn pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol. Dywedodd y byddai'n rhannu adroddiadau ar fframwaith moesegol HSBC gydag Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

Dywedodd yr Ysgrifennydd hefyd bod nifer o Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi holi a oedd yn briodol gwario rhywfaint o arian cyfalaf y Gronfa oherwydd bod perfformiad y portffolio yn weddol dda. Dywedodd y Cadeirydd bod angen adolygu meincnod y portffolio i ddenu difidendau canrannol uwch bob blwyddyn. Gofynnodd i HSBC roi ffigyrau i'r Pwyllgor ynghylch y difidendau o'r portffolio dros y 10 mlynedd diwethaf.

Yn dilyn sesiwn o holi ac ateb **PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr adroddiad.**

- **Bod HSBC yn rhannu ei fframwaith moesegol gyda'r Ymddiriedolaeth Elusennol fel y gofynnwyd.**

- **Bod HSBC yn rhoi ffigyrau i'r Pwyllgor hwn ynghylch difidendau o'r portffolio dros y 10 mlynedd diwethaf.**

## 4 EITEM YCHWANEGOL

**EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT**

**ADOLYGU RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Dywedodd y Cadeirydd na chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau Rheoli Buddsoddiadau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol ers nifer o flynyddoedd.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at HSBC Investment Management i drafod adolygiad o'r strwythur ffioedd a'r angen i godi meincnod yr Ymddiriedolaeth.**

**MR. H. EIFION JONES**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **24 MEHEFIN 2014 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CANLYNIAD DRAFFT 2013/14 A CHYLLIDEB 2014/15** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYLLIDEB AMLINELLOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG A151 DROS DRO** |
| **GWEITHREDU:** | **MABWYSIADU'R GYLLIDEB A DIRPRWYO SWM I'W DDYRANNU I GRANTIAU BLYNYDDOL** |

## 1. Crynodeb

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido 2014/15 ac i ddirprwyo pŵerau cyllido ar gyfer cyfleusterau cymunedol a grantiau bychan i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Mae'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yma yn seiliedig ar ganlyniad a ragamcanwyd ar gyfer 2013/14.

**1.2** Golyga'r canlyniadau a ragamcenir ar gyfer 2012/13 fod yr arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2014 yn warged o £210k. Gyda'r twf disgwyliedig yn yr incwm buddsoddi, a chan ragdybio y bydd y lefelau cyfredol o ran cyllido grantiau'n parhau (gyda'r cyllid a roddir i Oriel Ynys Môn yn gostwng i £200k eleni), rhagamcenir bydd yr arian refeniw sydd wrth gefn yn cynyddu i £521 yn 2015/16. Oherwydd yr ansicrwydd cyfredol o mewn perthynas â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol, argymhellir na ddylid dyrannu'r gwarged rhagamcanedig yma ar hyn o bryd.

**1.3** Y gyllideb grantiau argymhellir ar gyfer 2014/5 yw :-

- Oriel Ynys Môn £200k;
- Neuaddau Pentref £66k; a
- Cyfleusterau Cymunedol a Grantiau Bychan £50k (y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gael awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau hyn).

## 2. Canlyniad a Ragamcenir

**2.1** Mae'r canlyniad a ragamcenir a'r arian refeniw wrth gefn ar gyfer 2013/14 yn wahanol i'r strategaeth a'r gyllideb fel a ganlyn:-

- Roedd arian refeniw wrth gefn ar ddiwedd 2012/13 £35k yn uwch na'r rhagamcan ar adeg cyflwyno'r adroddiad ar bennu cyllideb ar gyfer 2013/14; roedd hyn oherwydd bod yr incwm buddsoddi £18k yn uwch na'r rhagamcan a dyraniadau o £19k yn codi a mân-wariant arall o £2k;
- Roedd incwm buddsoddi net o fân-wariant amrywiol £1k yn uwch na'r rhagamcan ar adeg cyflwyno'r adroddiad ar bennu cyllideb ar gyfer 2013/14;
- Roedd y ffi rheoli buddsoddiadau'n £6k (17%) yn uwch na'r gyllideb wreiddiol;
- Roedd 'Grantiau Eraill' yn £14k (28%) yn is na'r gyllideb wreiddiol; a
- Cafwyd ffioedd proffesiynol o £8k mewn perthynas â'r cyngor a gafwyd ynghylch gweinyddu'r Ymddiriedolaeth. Rhoddwyd swm o £20k o'r neilltu i'r diben hwn felly cymerwyd yn ganiataol yn y rhagancanion isod y bydd y £12k gweddilliol yn cael ei wario yn 2014/15.

**2.2** Mae'r canlyniadau a ragamcenir (sy'n cael eu crynhoi yn y tabl isod) yn golygu bod arian wrth gefn refeniw ar 31 Mawrth 2013 yn warged o £210k (amcangyfrif).

**2.3** Nodir grantiau yn yr arian wrth gefn refeniw pan wneir ymrwymiad i drydydd parti. Yn achos grantiau sydd i'w tynnu i lawr dros gyfnod o flynyddoedd, gellir cyllido'r rhain o incwm buddsoddi'r dyfodol. Gall y polisi arian wrth gefn a awgrymwyd yn y strategaeth ariannol a weithredwyd yn 2009/10, efallai ganiatáu diffyg o ran yr arian wrth gefn refeniw, ar yr amod fod rhagamcanion y llif arian yn dangos y gellir cwrdd ag ymrwymiadau arian parod a bod yr arian wrth gefn refeniw yn dychwelyd i warged dros y cyfnod y tynnir nhw i lawr.

**2.4** Dyma oedd y canlyniadau rhagdybiedig ar gyfer 2013/14 a'r rhagamcanion ar gyfer 2014/15 fel y cawsant eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn Ebrill 2013:-

| | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi* | 496 | 511 |
| Llai ffi safonol rheoli buddsoddiad* | (36) | (37) |
| Ar gael i'w wario | 460 | 474 |
| * a thybio y bydd yn tyfu ar 3% y flwyddyn | | |
| Gwariant ar:- | | |
| Oriel Ynys Môn | (215) | (200) |
| Neuaddau Pentref | (66) | (66) |
| Grantiau eraill | (50) | (50) |
| Cyfanswm Dyraniadau | 331 | 316 |
| I/(O) Arian wrth gefn | 129 | 158 |
| Gwarged/(diffyg) rhagamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn | 172 | 330 |

**2.5** Gellir yn awr diweddaru'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion uchod ar gyfer canlyniadau dros dro 2013/14 a 2014/15 a'r canlyniadau rhagdybiedig ar gyfer 2015/16. Mae incwm buddsoddi'n cael ei ragamcan ymlaen fel patrwm twf 3% o waelodlin uwch. Cadarnhawyd cyllid Oriel Ynys Môn yn ffurfiol fel cytundeb tair blynedd yn Rhagfyr 2009 ac o'r herwydd, nid oedd y ffigyrau hyd at ac yn cynnwys 2011/12 yn dangos unrhyw newid. Fel rhan o broses gosod cyllideb 2012/13, y cynnig o ran Oriel Ynys Môn oedd gostwng y cyllid i £200k y flwyddyn erbyn 2014/15. Efallai y bydd angen ystyried cyllid Oriel Ynys Môn eto ar gyfer 2015/16 ac ymlaen yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi rhagamcanion diwygiedig (gan anwybyddu dyryniadau a ildiwyd) fel a ganlyn:-

| Incwm Buddsoddi | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** | **2015/16 £000** |
|---|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi | 499 | 514 | 529 |
| Llai ffi safonol rheoli buddsoddiad | (42) | (43) | (45) |
| Ar gael i'w wario | 457 | 471 | 484 |
| Gwariant grant | | | |
| Oriel Ynys Môn | (215) | (200) | (200) |
| Neuaddau Pentref | (66) | (66) | (66) |
| Grantiau | (36) | (50) | (50) |
| | 317 | 316 | 316 |

Gwariant Arall

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffioedd proffesiynol – gweinyddu'r ymddiriedolaeth | (8) | (12) | - |

Symudiadau yn yr arian wrth gefn

| | | | |
|---|---|---|---|
| I/(O) Arian wrth gefn | 132 | 143 | 168 |
| Gwarged/(Diffyg) a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn | 210 | 353 | 521 |

**2.5.1** Fel y gwelir, dangosir y rhagamcanion diweddaraf fod incwm buddsoddi ar gyfer 2013/14 wedi mynd tu hwnt i'r rhagamcanion cychwynnol.

## 3. <u>Y Cylch Cyllido 2014/15</u>

Cyhoeddwyd hysbysebion am grantiau blynyddol yn hwyr ym mis Mawrth 2014, gyda dyddiad cau o 9 Mai 2014 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 4(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

## 4. <u>Argymhellion</u>

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2014/15 fel a ganlyn :-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £200k |
| Neuaddau Pentref | £ 66k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Grantiau Bychan | £ 50k |

**(c)** Dirprwyo swm o £50k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau.

**(ch)** Dychwelyd i'r strategaeth ariannol a threfniant cyllido Oriel Ynys Môn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**RICHARD MICKLEWRIGHT**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG A151 DROS DRO**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN** **19 MEHEFIN 2014**

This page is intentionally left blank

# Cais Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn i Ymddiriedolaeth Ynys Môn

## Mehefin 2014

# CFfi Ynys Môn

Eleni, bydd Mudiad Ffermwyr Ifanc (CFfi) yn dathlu 70 mlynedd fel mudiad sirol yma ar Ynys Môn. Y mae'n wir nodi fod nifer fawr o ddinasyddion Môn gyda neu wedi cael cyswllt gyda'r Mudiad hwn ers ei fodolaeth, naill ai fel aelod neu wedi mynychu gweithgaredd sydd ynghlwm â'r Mudiad. Mawr yw cyfraniad y mudiad i gymunedau ac i unigolion Ynys Môn ar hyd y blynyddoedd.

Elusen yw Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn sydd yn gwbl ddibynnol am nawdd ariannol, neu'r incwm mae'n ei godi ei hun, i gyflawni'r holl dasgau y mae'n ei gynnig i bobl ifanc Môn. Er bod y Mudiad yn rhan o fudiad elusennol Cenedlaethol nid yw yn derbyn unrhyw nawdd ariannol gan y Mudiad yng Nghymru.

Yn sicr, mudiad yr aelodau yw CFfI Môn. Yr aelodau sydd yn arwain, yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, yn creu rhaglen weithgareddau a chalendr clybiau ac yn codi arian er mwyn cadw'r Mudiad yn fyw. Mudiad democrataidd [pobl ifanc ydyw sydd yn hyrwyddo lles a hawliau unigolion ifanc.

Wrth fod yn fudiad democrataidd mae'r aelodau yn dysgu am broses o wneud penderfyniadau, gwrando ar eraill, dewis a dethol cynrychiolwyr a hefyd am y drefn bleidleisio. Drwy hyn, mae'r aelodau o oedran ifanc yn dysgu gwerth pleidleisio. Maent hefyd yn magu hyder i fynegi barn ac i siarad yn gyhoeddus, a thrwy hynny, mae'r mudiad hwn yn fagwrfa i arweinwyr ein cymunedau ni i'r dyfodol.

Ac wrth feddwl am y dyfodol, mae'r Mudiad yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc hyd nes y byddent yn 28 oed - ac yna yn aml fe welir cyn-aelodau yn talu nôl i'r Mudiad drwy wirfoddoli fel arweinwyr clwb. Dyma gylch bywyd ble mae'r ifanc yn dysgu gwybodaeth a sgiliau gan rai sydd wedi cerdded y llwybr o'u blaenau. Gan fod ystod oedran eang i'r clwb mae'r aelodau ifanc yn dysgu gymaint gan yr aelodau hŷn.

A braf yw gweld aelodau hŷn yn dod 'nôl i Fôn ar ôl bod i ffwrdd am gyfnod yn y coleg ac yn ail-afael yn y mudiad unwaith eto. Mae'n braf gweld cyswllt clos rhwng unigolion a'r mudiad a hefyd cymunedau Môn a'r mudiad.

Mae chwe chlwb yma ar Ynys Môn a phob un ohonynt a chysylltiadau agos â'r gymuned leol. Mae achlysuron dirifedi ar hyd y blynyddoedd lle mae aelodau'r mudiad wedi cyd-weithio â phrosiectau lleol a chynorthwyo gyda gwelliannau i'r gymuned. Enghreifftiau o hyn yw aelodau CFfI yn cynorthwyo mewn creu gerddi newydd, adeiladu wal a chasglu

arian ar gyfer elusennau amrywiol eraill. Mae ein cyfraniad yn sicr o fod yn cyfoethogi cymunedau Môn.

Yn wythnosol mae aelodau'r clwb yn cwrdd mewn mannau o fewn y gymdeithas i gynnal nosweithiau clwb. Mae rhai o'r meddylfryd, oherwydd y teitl, mai mudiad sydd yn hyrwyddo amaeth, ac ar gyfer pobl ifanc sydd o gefndir amaethyddol yn unig yw'r mudiad hwn, ond mae'r drws yn agored i unrhyw un sydd yn ymddiddori mewn bod yn rhan o fudiad ieuenctid bywiog, hwyliog yng nghefn gwlad. Hyrwydda'r Mudiad ddysgu sgiliau, magu hyder personol, a dysgu am ddiwylliant a bywyd cefn gwlad Cymru yn ogystal â chynnig i ddysgu sgiliau cefn gwlad ac amaeth. Mae'r mudiad hwn yn agored i unrhyw un beth bynnag fo'i gefndir neu iaith.

Hyrwyddwn ddwyieithrwydd er mai drwy gyfrwng y Gymraeg y mae rhan fwyaf o'n cystadlaethau yn cael eu cynnal. Teimlir fod y mudiad yn cyfoethogi sgiliau iaith rhai sydd yn llai hyderus yn y Gymraeg a hynny drwy eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith fyw ymysg pobl ifanc.

Yn sicr wrth fesur pobl elfen o'r mudiad hwn mae olion cyfoethogi sgiliau pobl ifanc yn amlwg yma. Mae'r Mudiad yn cyfrannu'n helaeth i sylfaen wybodaeth pobl ifanc, yn datblygu hyder a sgiliau bywyd sydd yn y pendraw yn eu datblygu i fod yn unigolion mentrus ar gyfer y dyfodol.

## Gwerth am arian

Yn ystod y flwyddyn mae bob clwb ffermwyr ifanc Ynys Môn yn cynnal nosweithiau clwb o leiaf 42 noson mewn blwyddyn, ac mae hynny heb gynnwys y sesiynau ymarfer at gystadlaethau.

Gan mai mudiad democrataidd ydyw, yr aelodau sydd yn trefnu'r gweithgareddau i'w cynnal ar nosweithiau clwb gydag arweinyddion sydd yn gwirfoddoli eu hamser yno yn goruchwylio. Nid oes gan y mudiad gôst staffio yn ystod nosweithiau clwb sydd yn profi, o gymharu â chlybiau ieuenctid arferol fod y mudiad yn rhoi mwy o werth am arian, na mudiadau sy'n cyflogi staff i redeg darpariaeth.

Yn ogystal â hyn, mae'r mudiad sirol yn trefnu oddeutu 18 o gystadlaethau / gweithgareddau ar Ynys Môn ac ar lefel cenedlaethol bob blwyddyn. Mae'r aelodau hefyd yn rhan o bwyllgorau amrywiol sydd yn cwrdd oddeutu unwaith yr wythnos, ac mae gan y mudiad gynrychiolaeth eang ar bwyllgor Sioe Môn ac mae eu cyfraniad at ddyfodol y sioe yn werthfawr iawn.

Gellir nodi felly fod cyswllt rhwng y mudiad a'r aelodau yn fwy nag ar gyfartaledd o unwaith bob wythnos. Petai gost staffio a goruchwylio i hyn byddai'r gwasanaeth hwn

yn gostus iawn i'r awdurdod. Rydym felly yn hynod o ffodus o gael mudiad sydd yn gyfoethog o wirfoddolwyr sydd a gwir gred yng ngwaith y mudiad hwn.

Mae'r Mudiad hefyd yn gwahodd y cyhoedd i'w gweithgareddau a gwelwyd dros 265 yn y ddawns rali a dros 350 yn y rali yn ystod y dydd. Daeth oddeutu 400 i'r Wledd o Adloniant a gafodd ei chynnal yn Ysgol David Hughes ym mis Chwefror a dros fil o bobl i Eisteddfod Cymru a gafodd ei chynnal ar Ynys Môn ym mis Tachwedd 2013. Yn sicr mae gweithgaredd Mudiad CFfi Môn yn denu sylw mawr y cyhoedd ac rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y ffaith fod gan ddinasyddion Ynys Môn gymaint o ddiddordeb yng ngwaith y mudiad.

O ran yr arian a geir gan y Cyngor, yn y gorffennol rydym wedi derbyn dros £20,000 y flwyddyn sydd wedi bod yn gymorth ariannol hanfodol i ni. Er bod y mudiad yn gweithio'n galed iawn i godi arian yn rheolaidd iawn, heb arian y cyngor ni fyddai'r mudiad yn gallu cyflawni'r holl weithgareddau nac yn gallu cynnig yr ansawdd gorau o wasanaeth i'n haelodau.

Mae newid ffocws ariannol y gwasanaeth ieuenctid statudol, yn fygythiad mawr i ddyfodol y Mudiad yma. Er nad yw ein niferoedd o aelodaeth yn enfawr mae'r hyn sydd yn digwydd o fewn y mudiad yn gyfoethog iawn. A phetai'r ymddiriedolaeth yn ystyried ein cais ariannol byddai modd ymhelaethu ar y gwaith datblygiadol i fedru denu mwy fyth o bobl ifanc Ynys Môn i brofi gwerth ein mudiad ni.

## SEFYLLFA ARIANNOL Y MUDIAD

Mae trosiant blynyddol y Ffederasiwn Sirol oddeutu £55-£60,000. O Fantolen y llynedd, roedd yn £57,682 gyda £20,380 o hwnnw yn grant gan Adran Ieuenctid y Cyngor Sir (gweler y Fantolen Sirol - Atodiad 1). Ar hyn o bryd, mae'r bobl ifanc yn codi dwywaith yr hyn maent yn derbyn gan y Cyngor, i redeg y Ffederasiwn a hynny heb yr arian a godir i redeg y clybiau unigol. Mae seiliau cadarn mewn lle i warchod buddiannau'r mudiad a threfn archwilio gywir wedi ei sefydlu.

### EIN CAIS

Rydym yn gwneud cais i'r Ymddiriedolaeth am arian ar gyfer rhedeg y Ffederasiwn dros y 5 mlynedd nesaf, yn hytrach na derbyn grant blynyddol o'r Adran Ieuenctid. Gofynnwn i'r Ymddiriedolaeth gyfrannu £30,000 y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf, i gefnogi ein pobl ifanc i gynnig rhaglen eang o weithgareddau diwylliannol, a chymdeithasol, sy'n cryfhau ein hardaloedd gwledig a'r iaith Gymraeg, ac yn rhoi cyfleodd i bobl ifanc ddatblygu fel arweinyddion ein cymdeithas i'r dyfodol.

Byddai hyn yn rhoi sicrwydd ariannol i'r Ffederasiwn mewn cyfnod pan mae cyllidebau'n cael eu gwasgu, a hefyd yn rhoi sicrwydd dros gyfnod pan mae pwysau i uno gwasanaethau, a hyd yn oed ansicrwydd o ddyfodol yr Awdurdod ei hun.

Fe welir isod fod aelodaeth sirol yn codi :-

| **Aelodaeth Sirol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2010-2011** | 27 | 84 | 44 | 155 |
| **2011-2012** | 24 | 98 | 42 | 164 |
| **2012-2013** | | | | 175 |
| **2013-14** | | | | **186** |

Amcangyfrifwn y byddai  darparu 6 chlwb ieuenctid yn cynnig yr un ddarpariaeth â'r hyn mae clybiau'r Ffermwyr Ieuainc yn gynnig, yn costio lleiafswm o £27,000 yn flynyddol i'r Cyngor. Yn atodol at weithgaredd o fewn y clybiau, dyma'r gweithgareddau mae'r aelodau yn cytundebu hefo'r Cyngor i ddarparu, yn flynyddol, ar lefel sirol, a nodir yn Atodiad 2, beth a gyflawnwyd fel Mudiad y llynedd.

**Crynodeb**

Petai'r cais hwn yn llwyddiannus byddai'r mudiad yn defnyddio'r arian ar gyfer :-

- cynnal gweithgareddau sirol megis cystadlaethau sydd yn hybu sgiliau a magu hyder unigolion er mwyn sicrhau unigolion mentrus ar gyfer y dyfodol
- datblygu cyfloedd i bobl ifanc yr ynys arfer eu Cymraeg mewn Mudiad hyfyw sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith fyw a llawn asbri
- datblygu meysydd fel technoleg gwybodaeth, cyfleoedd hyfforddi ayyb
- cynnig hyfforddiant wedi ei achredu mewn meysydd perthnasol sydd yn mynd i gyfoethogi sgiliau, sylfaen wybodaeth a chyfleoedd gyrfaol i unigolion.
- Sicrhau amrywiaeth eang o weithgareddau sydd at ddiddordeb pawb
- Ehangu cyfleoedd a chyfoethogi aelodaeth Môn ar yr ynys a thu hwnt
- Cynnal gwaith da'r mudiad i'r dyfodol

***Sian Roberts, Cadeirydd Sirol C Ff I Ynys Môn***
***Ann Postle, Swyddog Datblygu Sirol C Ff I Ynys Môn***

# ATODIAD 2 – Crynodeb o Waith y Mudiad yn ystod 2013-14

| Maes Gwaith | Digwyddiad | Targed | Niferoedd yn cystadlu 2012-13 | Niferoedd yn cystadlu 13-14 hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Diwylliant Cymraeg | 1 Eisteddfod Sirol | 150 o aelodau i gymryd rhan | Llwyfan 351; Llên – 140; Crefft - 77 | Llwyfan 568; Llên – 97; Crefft - 82 |
| Diwylliant Cymraeg | 4 x Cystadleuaeth Siarad Gyhoeddus 14,16,21,26 | 3 tîm o bob oed | 4x14<br>3x16<br>2x21<br>3x26 | 84 yn cystadlu |
| Diwylliant Cymraeg | Cystadleuaeth Ddrama neu Adloniant (bob yn ail gyda DGM isod) | O leiaf 1 tîm | 2 ddrama | 126 (cystadleuaeth Gwledd o adloniant)<br><br>45 yn cystadlu yng Nghymru |
| Sgiliau | Diwrnod Gwaith Maes (datblygu sgiliau amaethyddol) | 30 aelod | 9 yn trimio oen<br><br>Dangos Stoc 21 | 52 aelod<br>33 o aelodau yn barnu stoc<br><br>23 yn cystadlu yng Nghymru |
| Sgiliau | Barnu Stoc | 2 gystadleuaeth x 20 aelod | 77 biff ac wyn<br>29 Gwartheg duon<br>19 Cobiau<br>27 Defaid badger | Cystadleuaeth i'w gynnal Mehefin 2014 |
| Sgiliau | Rali Flynyddol | 150 o aelodau i gymryd rhan | 369 | 432 |
| Cyfleoedd Gymdeithasu | Dawnsfeydd Sirol + band Cymraeg | O leiaf 2 | Dawns Rali<br>Noson Nia (Cadeirydd)<br>Ponies & Pimms<br>Nosweithiau Castellior | Dawns Rali gyda 265 yn bresennol;<br>Noson Llywydd 65 yn bresennol |
| Cyfleoedd Gymdeithasu | Noson Llywydd/ Cadeirydd | 1 | Noson Llywydd 'Hollywood' yn Cario Môn. | I'w gynnal ym mis Rhagfyr 2014 |
| Cyfranogiad | Cyfarfod Blynyddol ym mhob clwb - dewis swyddogion | 6 clwb | 6 Clwb | 6 clwb |
| Cyfranogiad | Cadw Cofnodion a Chyfrifon Clwb | 6 Clwb | 6 Clwb – Llyfrau yn cael eu cyflwyno ar gyfer y Rali. | 6 Clwb – Llyfrau wedi eu cyflwyno yn y Rali. |
| Cyfranogiad | Cyfarfod Blynyddol Sirol | O leiaf 40 aelod i fynychu | 62 | I'w gynnal ym mis Tachwedd 2014 |
| Cyfranogiad | Pwyllgor Gwaith y flwyddyn | 28 aelod o leiaf yn bresennol x 12 gwaith | 89 o aelodau | 336 o aelodau mewn blwyddyn |
| Cyfranogiad | Pwyllgor Hyfforddiant y flwyddyn | 16 aelod yn bresennol x 12 gwaith | 62 o aelodau | 192 o aelodau mewn blwyddyn |
| Cyfranogiad | Pwyllgor Rheoli'r flwyddyn | O leiaf 5 aelod x 4 gwaith y flwyddyn | 35 o aelodau – Wedi cyfarfod yn amlach oherwydd trefniadau cyflogi trefnydd newydd. | 20 aelod |
| Cyfranogiad | Cyfarfod Blynyddol Cymru | 4 aelod o leiaf | 14 | 14 aelod |
| Cyfranogiad | Pwyllgorau Cenedlaethol | 3 x 6 aelod o leiaf | 11<br>2 aelod wedi cael | I gadarnhau gan fod y flwyddyn heb ddod i ben. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | eu hethol yn swyddogion Cymru. | |
| Cyfranogiad | Fforwm Ieuenctid | 20 aelod (neu fwy) o dan 18 oed i gwrdd oddeutu 8 gwaith y flwyddyn | | 1 cyfarfod gyda 6 aelod<br>1 gweithgaredd gyda 45 aelod wedi cymryd lle yn barod. |
| Cyfranogiad | Pwyllgorau allanol; | Sioe Môn, Undebau, Panel mân-ddaliadau, PPI, Fforwm Iaith; Panel Llwyddo'n Lleol | Wedi anfon aelod ar bob pwyllgor yn cynnwys pwyllgorau codi arian tuag at y Sioe Frenhinol. | Cynrychiolydd ymhob cyfarfod; |
| Cyfranogiad | O leiaf 3 digwyddiad Blynyddol i hyrwyddo'r Mudiad i bobl ifanc yr ynys e.e. Gŵyl Plant ac Ieuenctid, Sioe Môn, Ffair Aeaf, Wythnos Gwaith Ieuenctid; Chwaraeon Rhanbarthol yr Urdd | 3 | Sioe Môn, Ffair Aeaf,<br>Clwb ysgol yn David Hughes er nad oedd yn llwyddiant. | Cynrychiolydd yn bresennol i hyrwyddo gwaith y Mudiad. |
| Hyfforddiant | Un Noson Hyfforddi Swyddogion Clybiau | 30 aelod o leiaf | 42 o aelodau Medi 6ed yn y Ganolfan | Mis Gorffennaf 2014 |
| Hyfforddiant | Ar gyfer cystadlaethau e.e. barnu stoc, siarad cyhoeddus | 6 sesiwn sirol | Barnu gyda 2 arweinydd yn y Ffair Aeaf.<br>Oriau o ymarfer gydag arweinydd ar gyfer y côr.<br>Siarad cyhoeddus - Pob tîm yn ymarfer yn dda. | Nifer fawr o ymarferion côr Sirol; Ymarferion a sesiynau hyfforddi Siarad Cyhoeddus Sirol;<br>Nifer o sesiynau paratoi at farnu yn Sirol |
| Hyfforddiant | Bydd pob clwb yn cynnal o leiaf un noson glwb ar hyrwyddo iechyd e.e. ymwybyddiaeth alcohol, cyffuriau, ysmygu, bwyta'n iach, iechyd rhywiol. | 6 clwb x 10 aelod o leiaf | Gweler Rhaglenni clwb. | Gweler rhaglen clwb |
| Hyfforddiant sgiliau ymarferol | Sesiwn hyfforddi ffurfiol e.e. cymorth cyntaf, glendid bwyd, cwrs trelars, cwrs cneifio | Fel bo'r galw | Dim galw amdanynt eleni. | 12 aelod wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Sylfaenol Mawrth 2014.<br>I drefnu glendid bwyd<br>Hyfforddiant ATV i 4 aelod mis Mawrth 2014 |
| Chwaraeon | Pŵl, dartiau, tenis bwrdd | 30 aelod | 57 ym Modedern | 62 o aelodau |
| Chwaraeon | Noson chwaraeon iau | 30 aelod | 45 aelod<br>30 aelod yn y Rownders. | 45 o aelodau |
| Ehangu Gorwelion | Tripiau Undydd | 1 x 20 aelod | Alton Towers.<br>Canolfan Conwy - 30<br>Hwylan - 25 | Ymweliad Llyndy-Isaf 18 aelod |
| Ehangu Gorwelion | Mynychu cystadleuaeth /gweithgaredd all-sirol, o blith y canlynol:<br>Eisteddfod Cymru<br>Diwrnod Siarad Cyhoeddus<br>Gŵyl Gelf Cymru<br>Diwrnod Gwaith Maes Cymru<br>Y Sioe Frenhinol Gymreig | Mynychu o leiaf 4, gydag o leiaf 20 aelod yn mynychu | Eisteddfod Cymru 59<br>Siarad Cyhoeddus 15<br>Drama 20<br>Sioe Frenhinol 46<br>Ffair Aeaf 14 | Eisteddfod Cymru 99<br>Siarad Cyhoeddus Cymru 15<br>Gwledd o Adloniant 45 aelod<br>Gwaith Maes Cymru 23 aelod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y Ffair 'aeaf | | | Sioe Frenhinol - 79 i gystadlu<br>Ffair Aeaf - 24 |
| Ehangu Gorwelion | Teithiau Preswyl | 2 (Targed – 20 aelod) | AGM 14<br>Eisteddfod 59<br>Ffair Aeaf 9<br>Drama 20 | 1 aelod o Ynys Môn wedi bod dramor eleni |
| Datblygu Cynaliadwy a Gwaith Ieuenctid Byd-eang | Aelod neu gyn-aelod yn ymweld gyda chlwb/neu gynnal gweithgaredd sirol i hyrwyddo Rhaglen Deithiau Tramor | Ymweliad â 6 clwb ac un gweithgaredd i hyrwyddo teithiau tramor | 3 wedi bod yn y Weriniaeth Siec a 1 yn Strasbwrg - wedi bod yn cynnal nosweithiau mewn clybiau. Gwesteio 2 (Un o'r Ffindir ac un o das mania). | Bydd 1 bachgen ifanc yn aros gyda chlwb Bodedern dros yr haf. Mae'r aelod ifanc yma yn teithio o America ac yn treulio 1 wythnos ar Ynys Môn yn dysgu am fywyd cefn gwlad Cymru. |
| Datblygu Cynaliadwy a Gwaith Ieuenctid Byd-eang (ESDGC) | Aelod neu gyn-aelod yn ymweld gyda chlwb/neu weithgaredd sirol i hyrwyddo Cynlluniau Bywyd Gwledig a Chynllun Menter | Ymweliad â 6 clwb | Trefnydd yn hybu'r cynlluniau | I gadarnhau |
| Gwaith Dyngarol | 2 achlysur y flwyddyn e.e. Ymgyrch codi arian Cadeirydd Cymru/Gwas Carolau | £200 | Ras Rafft gyda dwy rafft eleni. Taith Gerdded. Gobeithio cyrraedd £1500 erbyn mis Hydref. | Ras rafft y fenai – 16 aelod<br>Taith gerdded i godi arian i RABI – Gorffennaf 2014<br>Clwb Dwyran yn cynnal gweithgareddau i gynorthwyo neuadd pentref Llangaffo |
| Gwaith Cymunedol | Pob clwb i wneud gwaith yn y gymuned | 6 Chlwb | Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Gosan. Taith beicio Biffi. Noson cwis sirol – 44<br>Bodedern -<br>Bwyd Eisteddfod yr urdd a thwtio o amgylch yr ysgol.<br>Dwyran – Stondin i hel pres at y Neuadd.<br>Llangefni – adloniant mewn cartref hen bobl<br>Llangoed - stiwardio i sioe geffylau<br>Llanddona<br>Penmynydd – helpu yn Theatr Fach<br>Rhosybol – Twtio gardd yr ysgol<br>Sir - Noson Rasys. Bar yn noson Castellior.<br>Arlwyo Sioe Frenhinol. | Noson i FUW – 20 aelod<br>Gwasanaeth Garolau ym Modedern - 42 aelod<br>Bodedern – bwyd yn Eisteddfod yr Urdd.<br>Cymanfa Ganu Capel Saron.<br>Llangefni - adloniant yng Nghartref yr henoed.<br>I gadarnhau |
| Gwaith Codi | Pwyllgorau i ofalu am | 3 gweithgaredd o | Taith gerdded. | Taith gerdded |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Arian** | **weithgareddau codi arian i'r Mudiad** | **leiaf** | **Stondin baned.**<br>**Arlwyo sawl gwaith.**<br>**Bar yn noson twristiaeth.**<br>**Wedi bod yn gweithio tuag at godi arian ar gyfer cronfa'r Sioe Frenhinol.** | **Ras rafftio**<br>**Wedi ei gwblhau / drefnu yn barod.** |

**Mantolen Ffedarasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Mon**
***1af Hydref 2012 i 30eg Medi 2013***

| Manylion | Gwariant | Incwm |
|---|---|---|
| | | |
| Costau Cyflogaeth | | |
| Cyflog Trefnydd | 10182.52 | |
| Cyflog Swyddog Datblygu | 3670.37 | |
| Costau Teithio - Trefnydd Sirol | 1243.08 | |
| | | |
| Fares Pool Cymru | 300.00 | |
| | | |
| Costau Swyddfa ag Adeilad | | |
| Offer Swyddfa (inc ayyb) | 156.62 | |
| Ffôn | 753.31 | |
| Post | 167.20 | |
| Adeilad - olew a trin bwyler | 1051.35 | |
| Adeilad - Profi'r System Dân | 59.30 | |
| Adeilad - Codi Wal | 500.00 | |
| Adeilad - Yswiriant | 197.16 | |
| | | |
| Aelodaeth / Yswiriant | 2741.65 | 3515.80 |
| | | |
| Eisteddfod Sir | 1082.93 | 1538.50 |
| Eisteddfod Cymru, Abergwaun | 1426.00 | 1177.00 |
| Eisteddfod Cymru, Ynys Mon 2013 | 11.99 | |
| | | |
| Rali | 4261.96 | 8937.00 |
| Grant Llwyddo'n Lleol tuag at y Ddawns | | 1000.00 |
| | | |
| Sioe Môn | 49.47 | 214.70 |
| | | |
| Cystadlaethau | | |
| Tariannau | 105.00 | 75.00 |
| Drama | 250.00 | 951.00 |
| Lleoliadau | 112.50 | |
| Blaendal Adloniant | 250.00 | |
| | | |
| AGM Cymru, Caerdydd 2012 | | 1250.00 |
| AGM Cymru, Caerdydd 2013 | 852.00 | 500.00 |
| | | |
| Noson Ffarwelio Elen ag Olwen | 2220.00 | 2212.00 |
| | | |
| Grantiau a Nawdd | | |
| Mr Sion Roberts | | 150.00 |
| NFU | | 200.00 |
| Bwrdd yr Iaith | | 7582.00 |
| Cyngor Tref Llangefni | | 50.00 |
| | | |
| Gwaith Codi Arian | | |
| Arlwyo | 248.97 | 2320.00 |
| Cinio Llywydd | | 140.00 |
| Ffair Aeaf | 20.00 | 151.60 |
| Noson Garolau | | 52.00 |
| Ambiwlans Awyr - Taith Gerdded | | 77.50 |
| Gwneud Bar | 1352.45 | 3889.50 |
| Cinio Cadeirydd Cyngor | 25.00 | |
| Rownd a Rownd | 50.00 | |
| BHF - Rafft, Cerdded, Noson Cadeirydd, Parti Rhosybol | 80.00 | 1060.50 |
| HMRC - Gift Aid | | 206.38 |
| | | |
| Clwb C.A.Ff.I | | 40.00 |
| | | |
| | | |
| Trip Canolfan Conwy 2012 | 225.00 | |
| Trip Hwylfan | 96.00 | |
| | | |
| Llog | | 11.60 |
| | 33741.83 | 37302.08 |

| | |
|---|---|
| Gwariant tros Incwm | -3560.25 |
| **Cyfanswm** | 33741.83 |
| | |
| Arian mewn llaw 30/09/2012 | **7915.38** |
| Incwm 2012-13 | 37302.08 |
| Gwariant 2012-13 | -33741.83 |
| **Arian mewn llaw 30/09/2013** | **11475.63** |
| | |
| Mewn llaw 30/09/2013 parthed datganiad banc rhif 529 | **13206.28** |
| Llai: sieciau heb eu cyflwyno | -1730.65 |
| **Arian mewn llaw 30/09/2013** | **11475.63** |

**Cyfrif Cadw Adeilad**

| | |
|---|---|
| Mewn llaw Hydref 1af, 2012 | 338.73 |
| Llog yn ystod y flwyddyn | 0.12 |
| **Mewn llaw Medi 30eg, 2013** | **338.85** |

**Yn y Banc Medi 30eg 2013**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | 11475.63 |
| Cyfrif Cadw | 23100.00 |
| Is-Gyfanswm | 34575.63 |
| Cyfrif Cyfredol Adeilad | 66.52 |
| Cyfrif Cadw Adeilad | 338.85 |
| **Cyfanswm yn y Banc 30/09/2013** | **£34,981.00** |
| **Grant Cyngor Sir Ynys Môn tuag at gyflog y Trefnydd Sirol** | 20380.00 |

Archwiliwyd a chafwyd yn gywir [signature] dyddiad 5.11.2013

Urdd Gobaith Cymru

# Cais Ymddiriedolaeth

# Urdd Gobaith Cymru

# 2014 -2019

Eryl Williams
Urdd Gobaith Cymru
13, Llys Castan
Parc Menai, Bangor, LL57 4FH
Ffôn: 01248 672111
Ffacs: 01248 672101
Ebost: eryl@urdd.org

urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Hoffai Urdd Gobaith Cymru gyflwyno cais i'r Ymddiriedolaeth er mwyn datblygu gwasanaethau o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc Ynys Môn dros y 5 mlynedd nesaf, mewn cyfnod ariannol heriol.

Mae'r Urdd yn fudiad blaengar sy'n cynnig profiadau cyffrous a Chymraeg mewn awyrgylch hwyliog i blant a phobl ifanc Cymru, beth bynnag fo'u cefndir.

Ein hamcan drwy ein holl weithgareddau yw dod â'r Gymraeg yn fyw i blant a phobl ifanc Cymru a sicrhau parhad y Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu.

Mae ein nôd gwreiddiol o sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol yn parháu.

Hoffem drwy'r cais hwn allu sicrhau ein bod yn:

- Gwella ansawdd bywyd dinasyddion yr Ynys
- Cyfoethogi ein cymunedau

A hynny drwy:


- Warchod yr iaith yn ein cymunedau drwy gefnogi a datblygu rhwydwaith eang o glybiau/uwch adrannau/aelwydydd etc
- Datblygu pobl ifanc i arwain ein cymunedau drwy gyfleoedd i wirfoddoli
- Rhoi cyfle i bobl ifanc i ennill cymwysterau atodol drwy'r Urdd a datblygu cyflogadwyedd pobl ifanc
- Hyrwyddo a datblygu talent yn yr Ynys a chynnig cyfleoedd iddynt ddisgleirio ar lefel Cenedlaethol drwy'r Eisteddfodau/Chwaraeon
- Ehangu gorwelion pobl ifanc drwy gyfleoedd i deithio yng Nghymru a thramor
- Sicrhau bod y Sir yn lle da i fyw i blant a phobl ifanc y sir, o'r oedran 6-25 oed

Gall yr Urdd gynnig:

- Gwasanaeth ar gyfer yr Ynys gyfan
- Ar agor i unrhyw blentyn neu berson ifanc 6 – 25 oed
- Darpariaeth gwahanol i'r hyn mae'r clybiau ieuenctid statudol yn gynnig
- Yn paratoi pobl ifanc at waith (e.e. cymwysterau achredu a hyfforddiant i bawb)
- Cefnogaeth i bobl ifanc i fod yn arweinyddion eu Mudiad a'u cymunedau (cyrsiau arweinyddion etc)
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a rhoi cyfle i bobl ifanc ei harfer yn gymdeithasol a magu hyder tu allan i'r dosbarth a'r ysgol
- Prosiectau ag amcanion dyngarol sy'n cyd-fynd ac amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth

**Aelodaeth – yma gwelir ystadegau aelodaeth Môn dros y blynyddoedd diwethaf:**

Yn ystod y flwyddyn 2012-2013 roedd aelodaeth y rhanbarth yn 2350 - 51 aelod yn llai na'r flwyddyn flaenorol a'r tro cyntaf mewn 5 mlynedd i ni weld lleihad yn nifer yr Aelodau. Er hynny mae Aelodaeth 2013-14 9% ar gynnydd ac rydym am y tro cyntaf erioed wedi cyrraedd dros 2650 o aelodau yn y Rhanbarth.
Cynradd – 2091 Ieuenctid – 579




| | Cynradd | Bl 7 | Bl 8-13 | 19-25 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008-09 | 1770 | 148 | 227 | 50 | 2195 |
| 2009-10 | 1743 | 160 | 341 | 41 | 2285 |
| 2010-11 | 1733 | 170 | 371 | 23 | 2297 |
| 2011-12 | 1861 | 120 | 397 | 23 | 2401 |
| 2012-13 | 1868 | 136 | 329 | 17 | 2350 |
| 2013-14 | 2096 | 164 | 370 | 45 | 2675 |

■ 2008-09 ■ 2009-10 ■ 2010-11 ■ 2011-12 ■ 2012-13 ■ 2013-14

**Cynllun Busnes/Targedau Posib:**

**I**sod awgrymwn rhai targedau ond byddwn yn hapus iawn i drafod hyn ymhellach gyda chi. Byddwn yn disgwyl dros gyfnod o 5 mlynedd y byddai datblygiad yn y targedau a'r gwaith a gyflawnir. (Am fanylion llawn o'n gweithgarwch ar yr Ynys dros y flwyddyn diwethaf, gweler yr atodiad).

- Sicrhau bod gweithgarwch craidd yr Urdd ar gael ymhob cymuned sydd yn awyddus i'w gael ac i bob aelod yn cynnwys:
    - Trefnu Eisteddfodau Cylch x 4

- Trefnu Eisteddfodau Sir ( yn cynnwys gweithgareddau celfyddydol megis perfformio, celf a chrefft a dawns)
- Trefnu Chwaraeon o bob math ar lefel Cylch (12 digwyddiad) a Rhanbarth (8 Digwyddiad) yn ogystal â chynorthwyo gyda threfniadau digwyddiadau Talaith (5 digwyddiad).
- Trefnu Teithiau i Wersylloedd yr Urdd yng Nglan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd y tu allan i oriau ysgol.
- Cydlynu Taith Tramor yr Haf i Catalunya yn ogystal â threfnu taith i Disneyland, Paris.
- Trefnu amryw o deithiau undydd i lefydd deniadol i bobl ifanc o Fôn sy'n sicrhau cyfleoedd iddynt gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau'r ysgol.

- Gwneud gwaith mapio sydd yn adnabod bylchau yn ein darpariaeth gymunedol - cydweithio â gwirfoddolwyr lleol i gynnal clybiau cymunedol lle nad oes rhai yn bodoli a hefyd cynyddu cynhwysedd y rhai sydd yn bodoli yn barod e.e. yn 2014-15:
    - Ail sefydlu Aelwyd yn Rhosmeirch ar gyfer yr oedran 12-25 er mwyn llenwi bwlch.

    - Sefydlu Aelwyd / Clwb yr Urdd yn ardal Llangoed. Mynegwyd diddordeb eisioes gan griw ond yn sgîl diffyg amser dynol nid yw wedi bod yn ymarferol bosib i roi'r cefnogaeth fyddai ei angen ar hyn o bryd.

- Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei weld fel rhywbeth i bawb ac a fydd yn bwysig i bobl ifanc wrth iddynt fyw yn Ynys Môn i'r dyfodol.

- Sefydlu dau glwb Chwaraeon yn nalgylch Caergybi yn ogystal ag adnabod, a llenwi bylchau eraill yn y ddarpariaeth chwaraeon.

- Sicrhau cyfleoedd i bobl Ifanc wirfoddoli gyda'r Urdd er mwyn ehangu eu sgiliau a'u tebygolrwydd o gael swydd wedi gadael yr ysgol a gwneud hyn drwy gefnogi'r elfen wirfoddol o fewn y Fagloriaeth Gymreig.

- Sicrhau mwy o gyfleoedd i bobl Ifanc o bob cefndir i fynychu gweithgarwch a fydd yn arwain at achrediad sy'n rhoi sgiliau gwaith a hyder i bobl ifanc yr ynys.

- **Cyfranogiad Pobl Ifanc** - Datblygu ac ehangu ar waith Fforwm Ieuenctid y Sir ( Fforwm yr Urdd) drwy sicrhau eu barn ar rediad yr Urdd ar yr Ynys yn ogystal ag ar faterion sy'n ymwneud â'r cymunedau a'r iaith Gymraeg.

- Ehangu ar y gwaith gyda dysgwyr yn y Sir, yn benodol clwb pwrpasol yn ardal Caergybi. Hefyd, trefnu cyrsiau achredu penodol ar gyfer mewnfudwyr a siaradwyr Cymraeg ail iaith.

- **Datblygu Canolfan yr Urdd Penmynydd -** Sicrhau defnydd llawn o Ganolfan Newydd yr Urdd ym Mhenmynydd. Mae'r Rhanbarth yn ddiweddar wedi sicrhau les 10 mlynedd gan y Cyngor Sir ond mae angen amser dynol er mwyn sicrhau defnydd llawn o'r Ganolfan – byddai hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor Rhanbarth yn gallu cadw gafael ar y ganolfan fel adnodd i'r gymuned yn ogystal â chartref i'r Urdd ym Môn. Mae hwn wedi bod yn ddatblygiad gwych sydd angen ei gefnogi.

- Sefydlu amserlen hyfforddi ar gyfer ein gwirfoddolwyr.

Mae'r Rhanbarth yn ffodus iawn o'n gwirfoddolwyr ond teimlwn nad yw'r gefnogaeth ar hyn o bryd yn ddigonol iddynt. Mae cyrsiau hyfforddi megis Amddiffyn Plant a Chymorth Cyntaf yn digwydd yn flynyddol ond hoffwn sefydlu amserlen o hyfforddiant ar :

- Waith Ieuenctid
- Y Wasg gan gynnwys gwefannau cymdeithasol
- Cyllid a Grantiau
- Amserlen Adran / Aelwyd

Credaf y gall y cyrsiau hyfforddi yma gynorthwyo'r Adrannau, Uwch Adrannau ac Aelwydydd i ffynnu. Mae'r niferoedd yn sefydlog y mhob clwb ond yn amlwg mae bob amser lle i ehangu a gwella.

**Cais Busnes - Ariannol**

Mae gan Urdd Gobaith Cymru amser 4 aelod o staff yn gwasanaethu Rhanbarth Ynys Môn ar hyn o bryd yn cynnwys:

1 Swyddog Datblygu – Llawn amser (Cyllideb Llywodraeth Cymru /Cyngor Môn ac arian Rhanbarthol)
1 Swyddog Datblygu Cynorthwyol – Rhan amser (Cyllideb rhannol Cyngor Môn)
1 Swyddog Gweinyddol – Rhan amser (Cyllideb Llywodraeth Cymru/Urdd Gobaith Cymru)
1 Swyddog Chwaraeon – Rhan amser (Cyllideb Chwaraeon Cymru/Urdd Gobaith Cymru)

**Hoffem wneud cais o £40,000 yn flynyddol i gynnal yr holl weithgarwch uchod ar yr Ynys a fyddai'n cyfrannu tuag y gost o gynnal y Rhanbarth. Cost cynnal cyflogau a chostau teithio y rhanbarth ar hyn o bryd yw £62,500 yn flynyddol gyda potensial o gostio £20,000 mwy os gwnaed y staff yn llawn amser. Gweler isod yr holl gostau o fewn y Rhanbarth sydd yn gwneud cyfanswm o £101, 546.**

BRASLUN COSTAU CYNNAL RHANBARTH MON

| | |
|---|---|
| Cost cyflogi presennol | 58,231 |
| Costau swyddogion (teithio ayb) | 4,300 |
| Darpariaeth Swyddfa | 8,000 |
| Gweithgareddau Rhanbarth | 9,500 |
| Canolfan Penmynydd | 2,500 |
| Costau staffio ychwanegol os yn llwyddiannus | 19,015 |
| Cyfanswm | 101,546 |

Rydym yn gweithio ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Adran Ieuenctid Cyngor Môn ar hyn o bryd gwerth oddeutu £19,000 yn flynyddol. Mae perthynas waith dda iawn gennym gyda'r Adran Ieuenctid ac mae proses mewn lle i fonitro ein gwaith yn gyson. Mae targedau meintiol yn cael eu gosod yn flynyddol.

Mae Swyddfa'r Urdd ar hyn o bryd ym Mangor ac mae hyn ar gost o tua £8000 i'r Urdd/Rhanbarth Mon (hyn yn cynnwys rent, tanwydd, gwasanaeth casglu sbwriel, glanhau, trydan, trethi, dŵr, yswiriant, ffôn a postio).

Mae gan y Pwyllgor Rhanbarth sydd yn weithredol iawn ar yr Ynys rôl bwysig yn rhediad yr Urdd ar yr Ynys hefyd. Maent yn talu £6,641 o darged yn flynyddol i'r Urdd yn ganolog er mwyn helpu'r Urdd i dalu cyflogau a chostau swyddfa y Rhanbarth. Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid i'r Pwyllgorau Cylch a Rhanbarth hefyd godi arian er mwyn sicrhau rhediad yr holl Eisteddfodau Cylch/Sir a Chystadlaethau Chwaraeon lleol.

Ni fyddai modd cynnal yr holl weithgarwch hwn heb amser ein gwirfoddolwyr brwd nac ychwaith heb yr incwm hwn. Mae hyn yn gost blynyddol o £9,596, yn ogystal â chostau cynnal a chadw Canolfan yr Urdd Penmynydd sydd oeddeutu £2,500 y flwyddyn. Mae dymuniad yr Urdd ar yr Ynys i sicrhau fod Canolfan Penmynydd yn datblygu i fod yn Ganolfan i'r Urdd ar yr Ynys yn parhau ac mae gobaith un diwrnod gan y staff hefyd i ail leoli Swyddfa'r Urdd draw o Fangor i'r Ynys. Maent yn rhannu adnoddau gyda Rhanbarth ac adrannau eraill ar y funud felly bydd angen ystyried hynny. Mae'r tri aelod o staff yn hannu o Fôn.

Mae gan yr Urdd yn lleol ac yn Rhanbarthol brosesau cyllidol tynn mewn lle gyda mantolenni yn cael eu harchwilio yn flynyddol gan gyfrifwyr allanol. Fe gadwa'r Urdd yn ganolog hefyd olwg ar holl systemau cyllidol y Rhanbarthau.

Mae holl bolisïau'r Urdd yn cael eu cymeradwyo yn flynyddol gan gynnwys:
Asesiadau Risg
Iechyd a Diogelwch
Diogelwch Plant.

**Gwerth am Arian**
Byddai arian yr Ymddiriedolaeth yn cael ei wario ar yr **Ynys**, ar blant a phobl ifanc yr **Ynys**, ar gyfer dyfodol yr **Ynys**.

Byddai yn galluogi ein aelodau i dderbyn mwy o wasanaeth yn ddyddiol gan yr Urdd ac yn ehangu gwaith yr Urdd i gymunedau efallai sydd heb sicrhau gwasanaeth llawn yn y gorffennol.

**Diweddglo**

Mae'r gwaith sy'n digwydd yn enw'r Urdd ar Ynys Môn yn broffesiynol ac yn ddynamig iawn ond gyda mwy o arian i allu gweithredu, mae'r hyn y gellid ei gyflawni yn gyffrous iawn. Os hoffech fwy o fanylion parthed ein cais, mae croeso i chi gysylltu â:

Sian Rogers (Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned) 07976003320
Eryl Williams (Swyddog Datblygu Môn) 07976 003314



Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Gwybodaeth Atodol

# Cais Ymddiriedolaeth

# Urdd Gobaith Cymru


# 2014 -2019

Eryl Williams
Urdd Gobaith Cymru
13, Llys Castan
Parc Menai, Bangor, LL57 4FH
Ffôn: 01248 672111
Ffacs: 01248 672101
Ebost: eryl@urdd.org

urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig trwy Warant yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Aelodaeth**
Yn ystod y flwyddyn 2012-2013 roedd aelodaeth y Rhanbarth yn 2350 - 51 aelod yn llai na'r flwyddyn blaenorol a'r tro cyntaf mewn 5 mlynedd i ni weld lleihad yn nifer yr Aelodau. Er hynny mae Aelodaeth 2013-14 ar gynnydd o 9% ac rydym am y tro cyntaf erioed wedi cyrraedd dros 2650 o aelodau yn y Rhanbarth.
Cynradd – 2091 Ieuenctid – 579




| | Cynradd | Bl 7 | Bl 8-13 | 19-25 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008-09 | 1770 | 148 | 227 | 50 | 2195 |
| 2009-10 | 1743 | 160 | 341 | 41 | 2285 |
| 2010-11 | 1733 | 170 | 371 | 23 | 2297 |
| 2011-12 | 1861 | 120 | 397 | 23 | 2401 |
| 2012-13 | 1868 | 136 | 329 | 17 | 2350 |
| 2013-14 | 2096 | 164 | 370 | 45 | 2675 |



**Gwaith Cymunedol**
Aelwyd yr Ynys
Mae niferoedd yr Aelwyd yn sefydlog, gyda'r criw yn cyfarfod unwaith yr wythnos ar nos Sul ac yna yn ymestyn i ddwywaith yr wythnos ym misoedd Mawrth, Ebrill a Mai.

Yn y 12 mis diwethaf buont yn cystadlu yn y gwyliau isod :

- Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru,
- Eisteddfod Môn,

urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

- Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Mae gan yr Aelwyd bwyllgor sydd yn parhau i fod yn gryf ac yn rhagweithiol, y bobl ifanc sydd yn llywio'r Aelwyd o ddydd i ddydd.

**Uwch Adran Yr Ynys bl6 i 14 oed**

Ym mis Rhagfyr 2013 ail sefydlwyd Uwch Adran yr Ynys, Mae'r Uwch Adran yn cyfarfod bob nos Sul yng Nghanolfan Yr Urdd Penmynydd ac hefyd yn cyfarfod yn achlysurol ar nos Wener. Mae criw gwych o 10-15 o bobl ifanc yn mynychu yn wythnosol.

**Uwch Adran / Aelwyd Talaw**
Mae Uwch Adran/Aelwyd Talaw yn adran newydd ym Môn, mae nhw'n cyfarfod bob nos Wener yn yr Ysgol Gynradd yn Llannerch-y-medd, Mae tîm o 6 o wirfoddolwyr brwd yn arwain yr Uwch Adran/Aelwyd. Mae oddeutu 30 yn mynychu yn wythnosol ac fe ddaeth yr adran yn fuddugol mewn cystadlauaeth hwyliog penodol ar gyfer Uwch Adrannau cyn y Nadolig yn Llanrwst. Mae'r Adran yn gyfuniad o Uwch Adran Alaw a Uwch Adran Llannerch-Y-Medd gyda'r arweinwyr wedi dod at eu gilydd i greu Uwch Adran/Aelwyd Talaw ym Môn**.**

Mae 53 ysgol ym Môn ac mae'r mwyafrif helaeth yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Mudiad yn gyson. Mae 13 adran gymunedol yma sydd yn darparu cyfleoedd i blant cynradd ag ieuenctid y rhanbarth yn ogystal a'r clybiau chwaraeon.

**Adrannau Cymunedol :**
Mae ein holl adrannau cymunedol a chlybiau chwaraeon yn cael eu cynnal tu allan i oriau Ysgol ac yn waith sydd ddim yn estyniad o waith Ysgol.

| **Ardal** | **Nifer o Aelodau** | **Cyfarfod** |
|---|---|---|
| Adran Rhosybol | 35 | Misol |
| Adran Corn Hir | 72 | bob tair wythnos |
| Adran Henblas | 81 | Bob yn ail wythnos |
| Adran Gaerwen | 34 | Wythnosol |
| Adran Dwyran | 15 | Dydd Mercher diwethaf y mis |
| Adran Llanddona | 8 | Bob yn ail wythnos |
| Uwch Adran Yr Ynys | 10-15 | Wythnosol |
| Uwch Adran Talaw | 15 | Wythnosol |
| Aelwyd Talaw | 15 | |
| Aelwyd Yr Ynys | 25-30 | Wythnosol |
| Adran Amlwch | 34 | Wythnosol |
| Uwch Adran Amlwch | 12 | |
| Aelwyd Amlwch | 12 | |

**Clybiau Chwaraeon Cymunedol:**

| Clwb | Nifer | Lleoliad | Cyfarfod |
|---|---|---|---|
| Pêl-rwyd Borth | 15-25 | Canolfan David Hughes | Wythnosol |
| Athletau Glannau Menai | 15-25 | Canolfan David Hughes | Wythnosol |
| Athletau Bach | 20 | Canolfan David Hughes | Wythnosol |
| Clwb Aml Sgiliau Amlwch Bach | 10+ | Canolfan Hamdden Amlwch | Wythnosol |
| Clwb Aml Sgiliau | 10+ | Canolfan Hamdden Amlwch | Wythnosol |
| Clwb pêl-rwyd | 15-25 | Canolfan Hamdden Amlwch | Wythnosol |
| Clwb aml sgiliau Borth | 10 | Canolfan David Hughes | Wythnosol |
| Clwb Gymnasteg a –z | 20 | Coleg Menai | Wythnosol |
| Clwb aml sgiliau Cefni | | Ysgol Gyfun Llangefni | X6 Wythnos |
| Clwb Tenis Bwrdd | | Ysgol Gyfun Llangefni | X 6 Wythnos |

**Ysgol Uwchradd Bodedern**
Clwb Amser Cinio bl 7 wedi bod yn llwyddiant. Bu'n cyfarfod rhwng Medi a Rhagfyr 2014. Rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r ddarpariaeth gyda'r gobaith o symud ymlaen i ymestyn y wasanaeth yn ddarpariaeth gymunedol i'r ardal. Golyga diffyg amser swyddogion i gefnogi'r gwaith, mai tymhorol yn unig y gellir cynnig y ddarpariaeth yma.
Bu'r ysgol yn llwyddiannus gyda chais am arian PCAI . Criw o 10 o aelodau'r chweched roedd yn gyfrifol am rhedeg y cynllun gyda chymorth athrawon a'r Swyddog Datblygu Cynorthwyol. Cafwyd canmoliaeth ei fynegi tuag at y criw am eu gwaith diflino ar y brosiect.

**Ysgol Syr Thomas Jones**
Rhwng Ebrill a Gorffennaf mynychodd 12-18 o ddisgyblion y Clwb Amser Cinio. Darparwyd wythnos o weithgareddau gemau potes ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7. Mae'r Urdd ym Môn yn parhau i gynnal perthynas sefydlog a chryf gyda'r ysgol.

**Ysgol Gyfun Llangefni**
Mae'r ysgol yn gefnogol tuag at weithgareddau chwaraeon yr Urdd ac mae'r bobl ifanc yn dda iawn am fynychu'r Fforwm Ieuenctid yn ogystal â *swogio* ar benwythnosau a chynorthwyo mewn gweithgareddau megis yr Eisteddfodau Cylch, ond mae angen sicrhau cyfathrebu gwell gyda'r ysgol o ran ehangu'r gweithgareddau hyn. Mae'r ysgol yn gefnogol iawn wrth adael i ni ddefnyddio adnoddau yr Ysgol ar gyfer Chwaraeon neu'r Eisteddfodau.

**Ysgol David Hughes**
Enillodd criw o Ysgol David Hughes y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus a ddarparwyd ar y cyd gyda 'Chymdeithas Lenyddol Bro Goronwy' eleni, ac hynny ar ôl cipio'r wobr y llynedd hefyd. Mae'r ysgol yn gefnogol o waith chwaraeon y mudiad ac hefyd yn gyfranogwyr brwd yn yr Eisteddfod.

**Ysgol Uwchradd Caergybi**
Daeth clwb dysgwyr blwyddyn saith i ben ym mis Gorffennaf, roedd cael pobol ifanc i fynychu ar y cychwyn yn her ond erbyn hyn mae 15 o bobl ifanc yn mynychu yn rheolaidd gyda niferoedd yn cynyddu yn ddibynnol ar y weithgaredd. Mae'r pobl ifanc yma yn bell o fod yn rhugl yn y Gymraeg. Er hyn mae'r cyswllt yn hanfodol ac yn

urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

bwysig iawn er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol y disgyblion a chodi eu hymwybyddiaeth o'r Urdd. Yn anffodus mae'r clwb amser cinio wedi dod i ben yn sgil effaith diffyg amser dynol (unwaith eto, dim ond yn dymhorol y gellir cynnal y weithgaredd yma, oherwydd diffyg amser staff i'w gefnogi).

Yn ogystal â'r uchod mae presenoldeb cyson oddi fewn i wasanaethau boreol yr ysgolion Uwchradd wrth i ni hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau.

**Pwyllgorau / Fforymau**

**Pwyllgorau Cylch a Rhanbarth**
Mae pedwar pwyllgor cylch ym Môn a'r pwyllgorau yma sydd yn cynorthwyo'r Mudiad oddi fewn i'r cylchoedd ac yn adrodd i'r Pwyllgor Rhanbarth sydd yn gyfrifol am rediad yr Urdd ar yr Ynys.

**Fforwm Ieuenctid** :
Yn dilyn penodiad Iestyn Wyn, mae'r bwrlwm yn y fforwm yn sicr wedi cynyddu. Mae'r fforwm erbyn hyn yn cyfarfod yn fisol sydd yn allweddol er mwyn sicrhau bod lleisiau ein pobl ifanc yn cael eu clywed oddi fewn i'r Rhanbarth. Rydym yn ymfalchio yn y ffaith ein bod yn ymgynghori a thrafod yn gyson gyda phobl ifanc. Mae'n gyfle i aelodau lywio dyfodol y Mudiad a lleisio eu barn am ei ddatblygiad, mae'r fforwm hefyd yn trafod materion allanol sydd yn ymwneud â phobl ifanc Yn ystod y flwyddyn mae'r Fforwm wedi trin a thrafod; strwythur y fforwm, swyddogaeth, penodi swyddogion, wedi ymgynghori ar nwyddau ar gyfer yr Urdd yn Genedlaethol, trafod gweithgor datblygu'r Eisteddfod a mynychu'r cyfarfod Cenedlaethol yn Aberystwyth, trafod gwyliau'r Ynys megis Sioe Môn, Gŵyl Cefni, Carnifal Llangefni, pleidleidio yn 16 mlwydd oed, problemau sydd yn gwynebu pobl ifanc yn ogystal ag Ynys Ynni a Strategaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid.

**Cyngor Urdd Gobaith Cymru a Byrddau Canolog**
Mae Rhanbarth Ynys Môn yn ffodus o fod hefo dau o'n haelodau dan 25 oed eisioes yn eistedd ar Gyngor yr Urdd yn ogystal â dau aelod ar Fwrdd y Maes, eto dan 25.

**Pwyllgor Rhanbarth**
Mae aelodau o'r Fforwm Ieuenctid yn eistedd ar Bwyllgor y Rhanbarth. Mae gan aelodau'r fforwm yr un hawliau â phawb arall ar y Pwyllgorau gan gynnwys yr hawl i bleidleisio.


**Pwyllgor Aelwyd Yr Ynys**
Mae Aelwyd yr Ynys yn cael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan y bobl ifanc gyda'r Swyddog Datblygu yn eistedd ar y Pwyllgor. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cynnal achrediad 'Agored Cymru Cyfranogiad Pobl Ifanc – Cyfarfodydd' ar gyfer aelodau'r Aelwyd.

**Eisteddfodau**
Mae'r Eisteddfodau eleni wedi bod yn llwyddiannus gyda 3133 yn cymryd rhan yn yr Eisteddfodau.
**Cynradd** : 2321 **Uwchradd** : 812.
Cynhelir 5 Eisteddfod Cylch, Eisteddfod Dawns, Eisteddfod Uwch-adrannau ac Aelwydydd, Eisteddfod Cynradd, Eisteddfod Uwchradd a digwyddiad Beirniadu Celf a Chrefft ar yr Ynys yn ystod Mis Mawrth.

**Hyfforddiant / Achrediadau**

| | | |
|---|---|---|
| Adnabod a Deall Sefydliadau - Ebrill 2013 | 6 | Arweinyddion Iau Aelwyd Yr Ynys ac ambell un arall |
| Lleoliad Dan Oruchwyliaeth - Ebrill 2013 | 6 | SWOGS |
| Gweithredu Polisïau a Gweithdrefnau - Ebrill 2013 | 6 | SWOGS |
| Paddle Power lefel 1 | 60 | Cyfnod Ysgol Uwchradd Bodedern - Glan-llyn Gorffennaf 2013 |
| GwobrJohn Muir | 60 | Cyfnod Ysgol Uwchradd Bodedern - Glan-llyn Gorffennaf 2013 |
| Cwrs Hyfforddi Cymorth Cyntaf - Mai 2013 | 21 | Cwrs Cymorth Cyntaf |
| Achrediad "Cynhyrchu Fideo Digidol | 7 | Saith Person Ifanc wedi mynychu cwrs "Cynhyrchu Fideo Digidol" |
| Cwrs Hyffordi Cymorth Cyntaf i bobl Ifanc- Tachwedd 2013 | 11 | 11 wedi mynychu |
| Cwrs Cymorth Cyntaf Arweinyddion - Tachwedd 2013 | 10 | Cwrs i Arweinyddion |
| Cyfranogiad Pobl Ifanc - Cyfarfodydd | 11 | Criw PCAI Ysgol Uwchradd Bodedern |
| Cwrs Hyfforddi Dawnsio Gwerin | 10 | Cwrs i Arweinyddion |
| Cwrs Hyfforddi - Eisteddfod | 5 | Cwrs i Arweinyddion |
| Cyfranogiad Pobl Ifanc - Cyfarfodydd | 6 | Criw Aelwyd Yr Ynys, (nawdd gan gynllun Gwirvol) |
| Cwrs Hyfforddi Ysgrifenyddion Cylch a Rhanbarth | 22 | Cwrs i Arweinyddion |

**Cyfanswm**: **214**
**Cyfanswm Pobl Ifanc : 194**



Rhaid nodi bod nawdd wedi ei sicrhau ar gyfer yr mwyafrif o'r cyrsiau uchod ac ni fyddent wedi bod yn bosib heb y cymorth ariannol a dderbyniwyd gan y ffynonnellau canlynol, cyfundrefn o nawdd GwirVol, Urdd Gobaith Cymru (Môn) a Goodsir Coaches.

Er bod yr Adroddiad yn dangos ein bod wedi achredu 25% o'n aelodau yn yr oedran bl 7 –Aelodau Hŷn (25) mae ambell person wedi gwneud mwy nag un achrediad.

**Hyfforddiant Arweinyddion**
Eleni rydym wedi hyfforddi ein Arweinyddion mewn Amddiffyn Plant a Chymorth Cyntaf, Dawnsio Gwerin, system cofrestru Eisteddfod yn ogystal â'r system gweinyddu Eisteddfod.

**SWOGS:**
Rydym yn parhau i gynnig cyfleoedd i aelodau'r chweched dosbarth gynorthwyo yn y mwynafrif o'n gweithgareddau a'u ddefnyddio fel Staff ar deithiau ac yng ngweithgareddau'r mudiad. Eleni cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer dethol SWOG i ddod ar y daith i Disneyland. Derbyniwyd 6 chais a chyfwelwyd 5 o'r pobl ifanc yn swyddogol yn y Swyddfa ym Mangor dan awyrgylch cyfweliad gyda Iestyn Wyn a Derek Evans. Mae SWOGIO yn cynnig cyfleoedd unigryw i bobl ifanc, mae'n dysgu sgiliau fydd gyda'r bobl ifanc am byth. Mae cefnogaeth y SWOGS yng ngweithgareddau'r Mudiad yn hanfodol i'n dyfodol ac ni fyddai nifer fawr o'n gweithgareddau yn rhedeg hanner mor esmwyth heb eu cymorth.

**Teithiau'r Urdd**
Yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf aeth 68 o bobl ifanc ar deithiau i Catalunya, Ffrainc neu Batagonia a 153 ar deithiau undydd neu nos i Alton Towers, Yr Wyddfa, Gulliver's World, Chill Factory, Sglefrio Iâ ac i ddigwyddiad cymunedol Uwch-adrannau Gogledd Cymru yn Llanrwst. Rydym yn teimlo bod ein teithiau undydd neu breswyl yn datblygu ein pobl ifanc i fod yn unigolion hyderus ac yn eu cynorthwyo i fod yn aelodau cyfrifol yn eu cymunedau.

**Cydweithio**
Rydym yn cyd-weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a Môn, Menter Môn, Medrwn Môn, Panel Iaith Môn, Y Ffermwyr Ifanc a Choleg Menai.

**Cynllun Blas ar Gymru**
Cynllun ar y cŷd gyda Menter Iaith Môn - cynllun gyda'r nôd o ddatblygu sgiliau ieithyddol y dysgwyr Cymraeg sydd yn mynychu'r unedau Iaith. Wrth i'r plant gael sesiwn hwyliog o iaith gan yr Urdd mae'r rhieni yn derbyn sesiwn iaith ffurfiol gan Menter Môn. Braf yw gallu cynnig y gwasanaeth yma i ddysgwyr y Rhanbarth.


**Chwaraeon:**
Mae'r Chwaraeon yn parhau i fod yn boblogaidd iawn oddi fewn i'r rhanbarth ym Môn gyda'r niferoedd yn gyson o flwyddyn i flwyddyn. Er bod niferoedd oedd wedi mynychu'r Athletau Rhanbarthol i lawr roedd cynnydd o 162 o blant a gymrodd ran yn y cylchoedd.

Parha'r Cystadlaethau Pêl-droed, Pêl-rwyd a Rownderi i fod yn boblogaidd o fewn y cylchoedd.




Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Cynradd :**




| | Pêl Droed 7 bob ochr | Pêl droed 7 bob ochr Merched | Pêl Droed 5 bob ochr | Pêl Rwyd | Rygbi | Nofio | Gymnasteg | Athletau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 108 | 60 | 28 | 108 | 30 | 636 | 43 | 249 | 1262 |
| 2012-13 | 170 | 60 | 28 | 120 | 40 | 595 | 53 | 214 | 1280 |
| 2013-14 | 150 | 50 | 0 | 120 | 48 | 607 | 49 | 280 | 1304 |

**Uwchradd:**




| | Pêl Droed 7-8 | Pêl Droed 9-10 | Pêl Rwyd 7-8 | Pêl rwyd 9-10 | Nofio | Gymnasteg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 20 | 20 | 12 | 12 | 45 | 6 |
| 2012-13 | 10 | 40 | 24 | 24 | 72 | 2 |
| 2013-14 | | | 24 | 36 | 91 | 2 |

**<u>Ni chynhaliwyd y cystadlaethau Talaith Pêl-droed eleni gan bod gwaith adeiladu yn cael ei gynnal ym Maes Glas, Bangor a does dim lleoliad arall addas o fewn amser teithio rhesymol i bawb.</u>**


urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

**Gwersylloedd :**

Parha'r  cyfnodau yng Ngwersylloedd yr Urdd i brofi'n boblogaidd gyda'r niferoedd canlynol yn mynychu yn 2013>14

**Cynradd ac Uwchradd**




| | Glan-llyn | Caerdydd | Llangrannog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 320 | 21 | 135 | 476 |
| 2012-13 | 333 | 335 | 75 | 743 |
| 2013-14 | 469 | 199 | 80 | 748 |

**Uwchradd**
Glan-Llyn (51) : 66 Cynnydd o 29%
Llangrannog (0) : 0  - Dim Taith
Caerdydd (167) :91  - lleihad o 45%

**Gweithgareddau eraill :**

Siarad Cyhoeddus – 2 dîm o bobl ifanc wedi mynychu eleni o Ysgol David Hughes a Ysgol Syr Thomas Jones.

**Swyddog Chwaraeon**

Yn ogystal a'r clybiau chwaraeon cymunedol, cynhelir y sesiynau aml sgiliau mewn perthynas ag Adran Chwaraeon Cyngor Sir Ynys Môn. Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae 540 wedi mynychu sesiynau blasu mewn amrywiaeth o Ysgolion ym Môn.

Cynhelir Cwrs Llysgenhadon Ifanc gyda 59 o Aelodau yn mynychu'r cwrs, bu rhain wedyn yn mynd nôl i'r ysgolion i wneud sesiynau / hysbysebu gweithgareddau'r Urdd ar Fwrdd Chwaraeon yr Ysgol.

Yn ystod gwyliau'r Ysgol cynigwyd amrywiaeth o weithgareddau cymunedol amrywiol gyda 395 o aelodau yn mynychu rhain.


urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Cafodd Elan Gilford, person ifanc gweithgar iawn o fewn chwaraeon y Rhanbarth y fraint o gynrychioli Rhanbarth Ynys Môn wrth gario Baton Y Gymanwlad yn Eisteddfod yr Urdd 2014.

**Marchnata / Hyrwyddo Gweithgareddau**

Mae'r Rhanbarth yn defnyddio gwefannau cymdeithasol megis Facebook, Twitter, Youtube a Skype ar gyfer cysylltu gyda phobl ifanc. Mae Aelodaeth ein gwefan Facebook yn tyfu yn wythnosol yn yr un modd â'r cyfrif Twitter. Mae Youtube yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arddangos ein fideos ac mae Skype yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm Ieuenctid yn achlysurol. Mae adborth cadarnhaol wedi ei dderbyn gan y bobl ifanc. Rydym eleni wedi cychwyn ar gynhyrchu Newyddlen Misol ar gyfer aelodau a'u rhieni yn ogystal â chefnogwyr oddi fewn i'r Sir.

**Adolygu Gwasanaeth / Adborth**

Yn dilyn pob gweithgaredd oedran Uwchradd, dosberthir taflenni arfarnu i'r bobl ifanc a oedd wedi mynychu'r gweithgaredd. Unwaith y flwyddyn (Medi fel rheol) mae'r criw staff maes yn cyfarfod ac yn adolygu'r taflenni yma gan ystyried y sylwadau wrth drefnu'r rhaglen i'r flwyddyn ganlynol.

**Gwaith Dyngarol**

**Gwasanaethau Carolau**

Rydym yn parhau i gynnal Nosweithiau Carolau yn ystod mis Rhagfyr ac mae cynrychiolaeth o bob Ysgol Uwchradd oddi fewn i'r Rhanbarth yn mynychu. Mynychodd 335 o bobl ifanc y Gwasanaethau Carolau eleni a 366 y flwyddyn flaenorol.



Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**, Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**, Dirprwy Brif Weithredwr: **Mai Parry Roberts**
**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310, Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru, Elusen Gofrestredig Rhif 524481